COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 25AIN O DACHWEDD 2024 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.00 O'R GLOCH.

1: PRESENNOL:
Y Cynghorwyr Arwel Davies (Cadeirydd), Stephen Williams, Rhian Evans, Edmund Evans, Ian Evans, Bari Evans, Cynghorydd Sir Ddinbych Elfed Williams a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU.
Y Cynghorwyr Philip Williams, Rhian Jones, Helen Jones a Manon Davies.

3. DDATGAN DIDDORDEB.
Y Cynghorydd Bari Evans are item 13 isod.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.
Cadarnhawyd cofnodion blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd a'r 28ain o Hydref 2024.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA ISOD.
A. Derbyniwyd e-bost o ddiolch oddi wrth Catrin Roberts tuag at gostau'r "Pumpkin Trail".
B. Mae'r Cyngor Sir Ddinbych yn edrych i mewn i'r materion ffyrdd a chodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.
C. Mi fydd y Clerc yn hysbysu'r sedd wag y Cyngor ar ôl ymddiswyddiad y Cynghorydd Rhian Evans.

6. TRAFODAETH GYDA'R CYHOEDD YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD.
Neb yn bresennol.

7. ARWYDDION PENTRE' PRION.
Mae'r Cadeirydd mewn cysylltiad gyda PR Signs ynglyn ar arwyddion.

8. SESIYNAU HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU.
Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr o'r hyfforddiant Un Llais Cymru am y chwarter yn diweddu Rhagfyr 2024.

9. SESIYNAU HYFFORDDIANT CYNGOR SIR DDINBYCH.
Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr o'r hyfforddiant Cod Ymddygiad am y flwyddyn 2024/25.

10. CYFLOG Y CLERC.
Adael ar y bwrdd.

11. CYLLID.
A. Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr ddiweddaraf o'r derbyniadau a thaliadau banc y Cyngor am y cyfnod thwng 1af Ebrill hyd 20fed o Dachwedd 2024.
B Taliadau yw cadarnhau:-
1. Cyfraniad tuag at gostau'r argraffydd y Clerc £60.00.
2. HG Web Designs - Ffi flynyddol Wefan y Cyngor £300.00.
3. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2024 £502.10.

12. PRECEPT Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN ARIANNOL 2025/26.

Ar ôl trafodaeth ynglŷn â'r cyllid y Cyngor am y flwyddyn ariannol bresennol (2024/2025) a'r amcangyfrif am y flwyddyn ariannol 2024/2025, penderfynwyd gadael Treth y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2025/2026 am £33 ar yr 568 preswyl yn y gymuned sydd yn cynhyrchu incwm o £18,744.00.

13. MATERION CYNLLUNIO.

Diweddaraf datblygiad answyddogol i'r Cais cynllunio 23/2021/0802 - Dymchwel adeiladau fferm segur bresennol, codi adeilad ar gyfer llety gwyliau, gosod gwaith trin pecyn a gwaith cysylltiedig yn adeiladau allanol gyferbyn a Tan-y-Fron, Llanrhaeadr.

Mae'r Cynghorydd Sir Ddinbych, Elfed Williams, eisoes wedi ysgrifennu at Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych sydd yn gynwysedig yn atodiad 1 isod.

14. GOHEBIAETH.

A: Derbyniwyd manylion oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych gwybodaeth ynglŷn â "Galwad Agored - Gosod Troedfryn ac Offer Newydd" mewn Lleoliadau Cymunedol.

B. Derbyniwyd manylion oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r "Adolygiad o Ddosbarthiadau a Mannau Pleidleisio"

C. derbyniwyd y Cadeirydd cais am gefnogaeth arian oddi wrth Mrs Liz Kameen am £135.00 tuag at gostau'r Ffair Nadolig yn Ysgol Pant Pastynog a'r 5ed o Rhagfyr 2024. Penderfynwyd yr aelodau am y rhodd o £135.00 ac i'r Clerc ofyn am fanylion banc y mudiad gan Mrs Kameen.

15. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r canlynol:-

A: Arwyddion ailadrodd 20 filltir yr awr rhwng Ysgol Bro Cinmeirch heibio'r King's Head yn Llanrhaeadr ac yn bentrefi Prion a Saron.

B. Biniau cyhoeddus yn bentrefi Prion a Saron.

C. Arwydd cyhoeddus i'r lon heibio Crwcwd at Penbryn Llwyn yn Llanrhaeadr.

16. MATERION FFYRDD YN Y GYMUNED.

A: Tipio anghyfreithlon rhwng Y Glyn a Llys. Bydd angen arwydd CCTV ar y safle.

B. Gwaith yn dal yn bodoli ar ffyrdd yn y gymuned a thrafodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

C. Eisiau ail osod sedd gyhoeddus newydd yn Stad Bodafon yn Llanrhaeadr.

D. Ffordd rhwng Tŷ Cerrig a Pen-y-Bryn ym Mhrion eisiau sylw.

17. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A: Yn dilyn ymddiswyddiad Rhian Evans o'r Cyngor, penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gyrru llythyr o ddiolch iddi am ei holl waith dros y Cyngor Cymuned ac i ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

B. Penderfynwyd y Clerc gofyn Cyngor Sir Ddinbych am wybodaeth ddiweddaraf am symiau mannau agored i'r gymuned Llanrhaeadr.

C. Penderfynwyd trafod y canlynol yn cyfarfod nesaf y Cyngor:-

1. Cyllid – gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26.
2. Offer Parc Chwarae yn Llanrhaeadr.

18. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 27AIN O IONAWR 2025 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.00 O'R GLOCH.